

## Cyfarfod cynllunio Cyllid a Llywodraeth Leol

8 Medi 2022

Nodiadau

### Mynychwyr

- Anna Nicholl, CGGC
- David Cook, CGGC
- Ben Lloyd, CGGC
- Phil Fiander, Is-bwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth
- Iwan Thomas, PLANED
- Ruth Power, Shelter Cymru
- Michele Hunt
- Megan Bowler, Siawns Teg
- Selima Bahadur, EYST
- Chris Johnes, Yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau
- Alison Pritchard, CGGC
- Sheila Hendrickson-Brown, C3SC
- Uzo Iwobi, Cyngor Hil Cymru
- Gemma Lelliot, CTA Cymru

### Cofnodion a champau gweithredu o'r Cyfarfod Gweinidogol diwethaf 04.05.22

#### Camau gweithredu

- *Dilyn i fyny â Janine Downing parthed briff ar strategaeth seilwaith.*
- *Bydd is-grŵp yn cael ei ffurfio o'r Is-bwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth, gan weithio trwy'r Cod Ymarfer presennol ar gyfer Cyllido'r Trydydd Sector, gyda'r nod o sefydlu egwyddorion lefel uchel a ddylai arwain y Cod.*
- *Alison i ofyn i Janine o'r Uned Trydydd Sector i ymhél â Michele.*
- *Ben i ddilyn i fyny'r cynnydd parthed canllawiau map ffordd ar gyfer cydberthnasau rhwng y sector a chyrrff cyhoeddus gyda Llywodraeth Cymru.*

### Paratoi ar gyfer sesiwn Gyllideb arbennig gyda'r Gweinidog, 22 Medi

Nododd y grŵp eu bod yn disgwyl Datganiad Cyllidol Llywodraeth y DU ar 21 Medi, a fydd yn effeithio ar y cyd-destun cyllidol.

Trafododd y grŵp yr angen am lwybrau cynaliadwy i ddatblygu cydberthnasau â'r sector statudol. Ni all gwaith atal a chymunedau cryfach ddigwydd os yw'r sector yn ysgwyddo'r baich cyllidol. Mae angen i Lywodraeth Cymru ymhél â'r sector, gan ofyn beth sydd ei angen ar gymunedau i ddod drwy'r Argyfwng Costau Byw. Nododd Chris y gallai fod angen cymorth ar fudiadau mwy o faint, yn ogystal â'r rhai llai. Nododd

Ruth y broblem o ran recriwtio a chadw staff yn sgil y galw digyffelyb am wasanaethau.

Nododd Uzo y cyfleoedd sydd gan y sector i ymgymryd â rolau cynghori a chyfrannol ar gyfer Llywodraeth Cymru. Dylid gofyn i Lywodraeth Cymru alluogi hyn.

#### *Camau gweithredu*

- *Rhannu unrhyw bwyntiau bwled perthnasol o Bartneriaeth Dadansoddiad Cyllid Cymru cyn y cyfarfod ar 15 Medi.*
- *Ben i lunio rhai pwyntiau bwled o'r sgwrs yn y cyfarfod, gan edrych ar werth gostyngol cyllid yn sgil yr Argyfwng Costau Byw ac effaith hyn ar wasanaethau, ac ar grwpiau ymgysylltu a llawr gwlad. Teimlwyd mai Ruth, Sheila ac Iwan fyddai'r bobl a ddylai ymateb yn gyntaf yn y cyfarfod ar 15 Medi.*

### **Ar gyfer Cyfarfod Gweinidogol Tachwedd 2022**

Dyweddodd Phil fod angen i'r Gweinidog atgoffa pobl o'r Cod Ymarfer presennol, ond mae'r ffaith bod Llywodraeth y DU yn anwybyddu rhannau ohono, er enghraifft yng Nghronfa Ffyniant Gyffredin y DU, yn broblem.

Siaradodd Sheila am ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau ac effaith, a sut gall y sector helpu Llywodraeth Cymru i gymryd rôl arweiniol er mwyn sicrhau bod eu polisïau, gan gynnwys y Cod Ymarfer diwygiedig, yn cael eu rhoi ar waith. Bydd dulliau gweithredu ar y cyd yn helpu i ddylanwadu ar newidiadau system a nodi'r rhwystrau i gyflawni nodau cyffredin.

Dyweddodd Michele fod angen i ni feddwl am sut rydym yn datrys problemau tymor canolig a hirdymor hefyd. Felly yn lle bod yn adweithiol, sut gallwn weithio ochr yn ochr â'i gilydd a chyflwyno buddion i natur a chymunedau. Ble mae'r cyfleoedd i gydweithio?

Dyweddodd Alison fod angen i'r Cod Ymarfer ar gyfer Cyllido'r Trydydd Sector fod yn fwy hygyrch, a bod angen gwneud mwy o waith ar fonitro sut gaiff ei ddefnyddio. Nododd hefyd y gellid defnyddio adeiladau'r sector fel Canolfannau Cynnes, gan fod yr adeiladau hyn yn debygol o fod yn agosach at gymunedau nag adeiladau awdurdodau lleol.

#### *Eitemau agenda posibl ar gyfer mis Tachwedd*

- Diweddariad Safonol gan yr Is-bwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth / Cod Ymarfer ar gyfer Cyllido'r Trydydd Sector
- Cydberthnasau a phartneriaethau rhanbarthol – sut rydym yn gweithio'n lleol/rhanbarthol